TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

WJEC AS Level Computer Science Level 3

Yn gryno

Mae'r cwrs yn cynnig cyfle i ddatblygu sgiliau rhaglennu a datrys problemau ymarferol, ynghyd â dealltwriaeth o egwyddorion a chysyniadau sylfaenol Cyfrifiadureg.

Dyma'r cwrs i chi os...

...ydych am gyfuniad o astudiaeth ymarferol a damcaniaethol

...oes gennych ddiddordeb brwd mewn cyfrifiadureg

...ydych yn hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiaduron ac yn gweithio'n galed

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn ymdrin â dealltwriaeth o systemau cyfrifiadur, yn cynnwys meddalwedd, caledwedd a chyfathrebiadau data, prif egwyddorion dadansoddi systemau, rhesymeg, algorithmau a chynrychioli data.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Lefel UG:

Uned 1 - Hanfodion Cyfrifiadureg
Uned 2 - Rhaglennu Ymarferol i Ddatrys Problemau

Safon Uwch:

Uned 3 - Rhaglennu a Datblygu Systemau
Uned 4 - Pensaernïaeth Cyfrifiadur, Data, Cyfathrebu a Chymwysiadau
Uned 5 - Datrysiad wedi'i Raglennu i Broblem

Asesir drwy dasgau gwaith cwrs ymarferol ac arholiad yn y flwyddyn UG ac U. Byddwch yn ennill cymwysterau mewn:

Cyfrifiadureg Lefel UG
Cyfrifiadureg Safon Uwch
Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I ymrestru, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Cymraeg/ Saesneg Iaith, yn ogystal â Gradd B mewn Mathemateg/Rhifedd Mathemateg neu Radd A mewn Cyfrifiadureg TGAU.

Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gradd mewn Cyfrifiadureg, neu bwnc cysylltiedig, megis Mathemateg, Ffiseg, Peirianneg neu unrhyw gwrs Gwyddoniaeth mewn Addysg Uwch.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi wneud cyfraniadau ariannol at gostau teithio ymweliadau addysgol.